

Ni wn i ddim beth am 'bewilderingly deep', ychwaith: lhfodd llawer iawn o dd_r dan y bont ond aeth yr hen gamlas gryn dipyn yn fasach ers 1938.

Bûm yn hynod falch o glywed gan berthynas i Fyfanwy Haycock, sef Marged Haycock, a roes lawer o hanes y bardd imi: Er iddi fy siarsio i beidio â 'sgrifennu P.S. i'r Casglwr', gwell imi ddweud y bu farw Gwladys, chwaer Myfanwy, a ailgyhoeddai ei cherddi, ac nad yw'r cyfrolau ar gael o'r cyfeiriad a roddais y tro diwethaf. Dywed Marged 'Rwyf mewn cysylltiad ag un o'r meibion, sef Wyn (aka David Williams, archeolegydd gyda Swydd Surrey) ac mae ganddo gryn dipyn o Nachlass ei fam (gan gynnwys lluniau, nofel anghyhoeddedig, llythyron etc.) ynghyd â llyfryddiaeth go lawn o'i herthyglau, cerddi, a sgysiau radio ... Rwyf wrthi'n dwyn perswād arno i roi'r deunydd i LIGC neu i Archifdy Gwent. Rai blynyddoedd yn ôl pan oedd sôn am lunio *Bywgraffiadur Menywod Cymru* ... gofynnwyd imi lunio pwt am Myfanwy yn Saesneg. Does dim byd wedi dod o'r *Bywgraffiadur* hyd yma, felly ... dyma amgáu'r hyn a sgrifennais y pryd hynny. Rhy faith yw ei hysgrif i'w chynnwys mewn colofn fel hon: oni wêl y *Bywgraffiadur* olau dydd, dylid ei chyhoeddi e.e. yn un o'r cylchgronau sydd a wnelont â llenorion Fingl-Gymreig. Sylwaf na chafodd hi gyfrol yng nghyfres Writers of Wales. lle ceir sawl llenor llai swynol a llai Cymreig na hi.

Dywed Marged ymhellach 'Rwyf yn cytuno â chi fod ei cherddi wedi dyddio'n enbyd'. Nid fy mwriad oedd awgrymu nad oeddent yn werth eu darllen - i'r gwrthwyneb yn hollol! Eu canmol yr oeddwn am eu bod, yn ôl 'safonau' heddiw, yn swynol a hen ffasiwn.

Gemau ymysg gwymon?

Arhoswn ym myd barddoniaeth - neu fydryddiaeth o leiaf. Prynais rywbryd rifyn Ebrill 1917 o'r hen *Geninen*, yn bennaf er mwyn ysgrif y Parch R. Hughes 'Geiriau Gwerin Sir Fôn'. O bori drwy'r gweddill dyma daro ar lythyr ynghylch 'Englyn Talcen Slip' (t. 144) sy'n cynnwys perl i'w thrysori: Mr Gol., Cwyna'r beirdd beunydd at grintachrwydd pwyllgorau llenyddol yn cynyg gwobrwyon mor fychain am farddoniaeth tra yn afradu eu cyfoeth ar gerddoriaeth. Mawr hoffwn gael gwybod pwy yw awdwr y cerydd miniog, ond 'talcen slip', isod a weinyddwyd i bwyllgor yn Sir Drefaldwyn am gynnyg swllt (ital) o wobwr am englyn i'r 'Spectol': -

*Do you expect a good spectol, - for such.
A low sum, bobol?
Mae'r swm yn afresymol,
You see, - bless me, it is small.*

LI.

Amheuaif na ddarfu eto am y gwyn bod cerddorion yn cael gwell cydnabyddiaeth na beirdd. Cafwyd blodeugerddi Cymraeg o bob math dan haul ond hyd y gwn ni fu casgliad o englynion cyffelyb er mwyn awgrymu swyn clec y gynghanedd a grym cryno'r englyn i'n cyfeillion di-Gymraeg. Beth amdani, y Lolfa! Gwelaf imi dalu pris go hallt (£3.50) am lyfr a gostiodd 6ch yn newydd, sef *Hwiangerddi F' Ewyrth Huw* (Hughes a'i fab, Wrecsam, d.d.) - llyfr yn clawr papur 32 dudalen. Hen ffefrynnau yw'r rhan fwyaf o'r rhigymau a'r penillion, pethau megis 'Trot, trot mynd i'r dre', 'Mae gennyf ebol melyn', 'Hen wraig fach yn gyrru gwyddau' (cofiat ddyngu hon ar lin fy Nhaid) ac yn y blaen. Ond yn eu plith ceir ambell drosiad digon diddorol o rigwm Saesneg:



Llun Myfanwy Haycock o'r gamlas ger Pontypwl

*Molyn Wy Melyn eisteddai ar fur,
Molyn Wy Melyn a gwmpodd yn wir;
Ni all gwyr y Brenin na neb arall chwaith
Fyth godi'r Wy Melyn ar y mur yr ail waith.*

A dyma un arall a fydd yn gyfarwydd:

*Hei didl, didl,
Y gath gyda'r ffidl;
Tros y lleuad â'r fuwch! Try hwy!
Fe chwaddodod y ci,
Wrth gael y fath sbri,
A dawnsiodd y plât gyda'r llwy.*

Ni chafodd y troswr gystal hwyl ar yr ail, mae'n wir: nid yw 'Try hwy' yn gywir nac yn gwneud llawer o synnwyr, ond tebyg mai gormod fyddai disgwyl hynny mewn rhigwm i blant. Pwy oedd y troswr, tybed? Nid oes enw awdur ar y llyfr.

Gwers inni o'r gogledd oer.

Yr wyf newydd ddarllen *Little is the Light: Nostalgic travels in the mini-states of Europe* (Touchstone, 1995), gan Vitali Vitaliev, newyddiadurwr ffraeth yn hanu o'r Weraen, y gellir ei gymharu â'r enwog Bill Bryson. Ni chododd fawr o awydd arnaf ymweld â gwledydd megis Andorra, San Marino, Mynydd Athos ayb; ond trawyd fi fwyaf gan yr hyn a ddywed am Ynsoedd Ffarøe, sydd ag ymreolaeth dan goron Denmarc. Gwlad fechan lom, oer a thloddaidd yr olwg yw hi, heb goed, heb flodau, medd Vitali. Cartref yw i ryw 49,000 o drigolion, llai na phoblogaeth Ynys Môn. Cafodd Vitali sgwrs â'r Dr Johan Hendrik Poulsen yn y Brifysgol yno: ef yw prif (neu unig?) eiriadurwr yr iaith, a'i waith yw bathu geiriau newydd ar gyfer 'teledu' 'cyfrifiadur' ac ati., ac fe'u derbynnir yn ddigon parod yn ôl pob sôn. (Cofiais imi gwrd d â'r Dr Poulsen yn 1996, mewn cynhadledd o eiriadurwyr ieithoedd lleiafrifol yn nhref Chosebuz (Cottbus) yn nwyrain yr Almaen; gŵr dysgedig a rhadlon iawn oedd.) Daneg fu unig iaith swyddogol yr ynsoedd ers 1400; ni chafwyd llynyddiaeth yn y Ffarøeg cyn 1890 a gwaharddidi ei dysgu yn yr ysgolion cyn 1938. Bellach hi yw iaith swyddogol yr ynsoedd a dysgir drwyddi yn

eu prifysgol. Cyfieithwyd Shakespeare, Dostoiefsci a Homer i'r iaith. Cafwyd hunanlywodraeth yn 1948. Ond at hyn yr wy'n dod: cyhoeddir 150 o lyfrau yn yr iaith bob blwyddyn, a chyhoeddir wyth papur newydd dyddiol! Ys truan o genedl ydym ni Gymry, yn ofni hawlio senedd go iawn, yn methu creu un coleg Cymraeg, yn methu cychwyn hyd yn oed un papur dyddiol.

Hysbysebu am ddim

Os oes gennych, fel fi, lwyth o lyfrau Saesneg na wyddoch sut i gael gwared arnynt, yna byddai'n werth ystyried tanygrifio i'r cylchgrawn diddan *Book and Magazine Collector*. O hyn ymlaen caiff pob tanygrifiwr hyd at gan llinell o hysbyseb bob mis am ddim - gwerth £1,300 o hysbysebion bob blwyddyn. Ffônier: 0870 732 7070, neu e-bostier janice.mayne@metropolis.co.uk neu anfon at Janice Mayne, BMC Subs. Unit 101, 140 Wales Farm Rd, London W3 6UG. Ceir gostyngiad sylweddol ar bris pob rhifyn. Prin y gwelais hysbysebu unrhyw lyfrau Cymreig na Chymraeg ynddo, ond gallech lenwi llinell neu ddwy trwy ddweud bod gennych restr o lyfrau o'r fath ar gael i ymholwyr.

AR WERTH

Ephemera Gwasg Gregynog. History of Saint Louis, cyf. Joan Evans 1937, 4 tud. Engrafiad Lliw o Lerpwl: View of the Liverpool in Lancashire. Engraved for the Modern Universal British Traveller 101/2" X 61/2" Engrafiad : Swansea Castle and Harbour 4" x 21/2"

*Cysyllter â
Mari Ellis, 4 Laura Place, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2AU neu ar 01790 617171*

* * * * *

Liafar Gwlad — set llawn (1-90)

Ymfynerer â
*D. Ll. Hughes, Gwen y Wawr, New Inn,
Pencader, Caerfyrddin
Cysyllter ar 01559 384839*